Cyllid & Thollau EF

# Nodiadau: Cyflogaeth

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 (2025–26)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Cyflogaeth eich Ffurflen Dreth

Llenwch y dudalen 'Cyflogaeth' os:

- ydych yn gweithio i gyflogwr sy'n didynnu treth trwy TWE
- cawsoch incwm fel cyfarwyddwr cwmni
- ydych yn ddeiliad swydd megis cadeirydd, ysgrifennydd neu drysorydd ac wedi cael incwm ar gyfer y gwaith hwnnw
- ydych yn gweithio i un person drwy gwmni neu bartneriaeth arall
- cawsoch unrhyw incwm tramor o swydd, neu swydd fel cyfarwyddwr

Mae'n rhaid i incwm a gafwyd fel is-gontractwr yn y diwydiant adeiladu gael ei gynnwys yn y tudalennau 'Hunangyflogaeth' nid y dudalen 'Cyflogaeth'.

Bydd angen i chi lenwi tudalen 'Cyflogaeth' ar wahân ar gyfer pob swydd neu swydd fel cyfarwyddwr oedd gennych drwy gydol y flwyddyn.

## Incwm a manylion cyflogaeth

Gallwch ganfod faint rydych wedi'i ennill a'r dreth a daloch o'ch:

- P45, 'Manylion cyflogai sy'n gadael gwaith'
- P60, 'Tystysgrif Diwedd Blwyddyn'

Mae'n rhaid i unrhyw gyflogwr yr ydych yn gweithio iddo ar 5 Ebrill 2026 roi P60 i chi erbyn 31 Mai 2026.

Cyfanswm cyflog yn y gyflogaeth hon

£ 9,283.91 c

Cyfanswm y dreth yn y gyflogaeth hon

£ 1,336.42 c

Enghraifft o P45

| | | |
|---|---|---|
| | | os ad-daliad rhowch 'R' |
| Yn y gyflogaeth hon | 9,283 91 | 1,336 42 |

Enghraifft o P60

### Blwch 1 Cyflog o'r gyflogaeth hon

Defnyddiwch y ffigurau o'ch P45 neu P60 er mwyn llenwi blwch 1.

Os ydych wedi cael taliadau ffyrlo, bydd eich P45 neu'ch P60 yn cynnwys y taliadau hyn.

Os gadawsoch swydd yn ystod y flwyddyn, rhowch y ffigur o'r adran 'Cyfanswm cyflog yn y gyflogaeth hon' ar eich P45 ym mlwch 1. Os oes gennych P60, rhowch y ffigur yn yr adran 'Yn y gyflogaeth hon' ym mlwch 1.

Os oedd gennych fwy nag un swydd yn y flwyddyn dreth, gall eich P60 dangos hyn. Rhowch y manylion hynny ar dudalen 'Cyflogaeth' ar wahân.

Gwiriwch y ffigurau cyflog ar eich P45 neu P60 cyn eu cynnwys. Os cawsoch unrhyw daliadau ar ôl i'ch cyflogwr rhoi P45 neu P60 i chi, dylid cynnwys y rhain ym mlwch 1 hefyd. Peidiwch â chynnwys cyfandaliadau, iawndal a didyniadau cyflogaeth, incwm ôl-gyflogaeth penodol a thaliadau breindaliadau patent ym mlwch 1. Dylid cynnwys y rhain ym mlychau 3 i 10 ar dudalen Ai2 o'r dudalen 'Gwybodaeth ychwanegol' (SA101).

Os ydych yn gweithio i un person drwy gwmni neu bartneriaeth arall, er enghraifft, gwaith asiantaeth, a byddech yn gyflogai i'r person hwnnw pe na bai'r cwmni neu bartneriaeth yn bodoli, rhowch y cyflog ym mlwch 1 ac unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlwch 2.

I gael rhagor o wybodaeth am gyflenwi gwasanaethau drwy gwmni neu bartneriaeth, ewch i www.gov.uk/topic/business-tax/ir35

## Enillion negyddol

Os ydych wedi gorfod talu arian yn ôl i'ch cyflogwr yn sgil cytundeb contractiol (a elwir yn aml yn adfachu), gostyngwch swm y cyflog ym mlwch 1 gan y swm a dalwyd yn ôl.

Os yw'r canlyniad yn swm negyddol, nodwch sero ym mlwch 1.

Nodwch y swm negyddol, ond fel ffigur positif, yn y blwch 'Rhyddhad masnach ôl-derfynu a rhai colledion penodol eraill', sef blwch 6 yn yr adran 'Rhyddhad treth arall' ar dudalen Ai2 o'r dudalen 'Gwybodaeth ychwanegol' (SA101).

Rhowch nodyn i esbonio pam yr ydych wedi gwneud hyn ym mlwch 19, 'Unrhyw wybodaeth arall', ar yr SA100.

## Benthyciadau tâl cuddiedig

Mae cynlluniau arbed treth sy'n ymwneud â thâl cuddiedig yn honni eu bod yn osgoi'r angen i dalu Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Fel arfer maent yn cynnwys benthyciad neu daliad arall gan drydydd parti sydd yn annhebygol o gael ei ad-dalu.

Dylech gynnwys ym mlwch 1 unrhyw fenthyciadau tâl cuddiedig a gafwyd o'r gyflogaeth hon ym mlwyddyn dreth 2025 i 2026.

Dylech gynnwys ym mlwch 2 unrhyw dreth ar y swm hwnnw y mae'ch cyflogwr wedi'i dalu i CThEF ar eich rhan o dan TWE.

### Blwch 1.1 Buddiannau a delir drwy'r gyflogres sydd wedi'u cynnwys ym mlwch 1 ac sy'n effeithio ar eich ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr

Wrth gyfrifo ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, ni ddylid cynnwys buddiannau a delir drwy'r gyflogres sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A.

Os ydych wrthi'n ad-dalu Benthyciad Myfyriwr neu Fenthyciad Ôl-raddedig a bod eich cyflogwr wedi talu'ch buddiannau drwy'r gyflogres (mae hyn yn golygu bod y dreth wedi'i didynnu oddi wrth eich cyflog ac wedi'i chynnwys yn eich P60 neu'ch P45), rhowch swm y buddiannau a delir drwy'r gyflogres sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A yn unig yn y blwch.

Bydd eich cyflogwr yn gallu rhoi gwybod i chi faint yw'r swm hwn, os nad ydych yn siŵr.

Dyma fuddiannau'r cyflogwr sy'n cael eu cyfrif fel buddiannau a delir drwy'r gyflogres ac sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A:

- ceir a faniau cwmni
- tanwydd ar gyfer ceir a faniau cwmni
- yswiriant meddygol a deintyddol preifat
- nwyddau ac asedion eraill a ddarparwyd gan eich cyflogwr

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am Fenthyciadau Myfyriwr a buddiannau drwy'r gyflogres, ewch i www.gov.uk/guidance/tell-hmrc-about-a-student-loan-in-your-tax-return.cy

### Blwch 2 Treth y DU a ddidynnwyd o'r cyflog ym mlwch 1

Os gwnaethoch dalu treth ar eich incwm cyflogaeth, rhowch y swm ym mlwch 2. Os oes 'R' wrth ymyl y ffigur ar gyfer treth a ddidynnwyd ar eich P60, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Peidiwch â chynnwys unrhyw dreth dramor ym mlwch 2.

2 Treth y DU a ddidynnwyd o'r cyflog ym mlwch 1

£ 3215.00

Enghraifft o dudalen 'Cyflogaeth', blwch 2

### Blwch 3 Cildyrnau a thaliadau eraill nad ydynt ar eich P60

Rhodd fach o arian yw hwn fel arfer a geir am wasanaeth a roddwyd. Er enghraifft, efallai y gewch gildwrn os ydych yn driniwr gwallt, gyrrwr tacsi neu'n weinydd.

Rhowch y cildyrnau a rhoddion na gawsoch gan eich cyflogwr ym mlwch 3.

### Blwch 4 Cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr

Mae hwn i'w weld ar eich P45 neu P60. Nodwch 'Dim' ym mlwch 4 os nad oes cyfeirnod treth TWE gan eich cyflogwr.

Cyfeirnod TWE y cyflogwr 139/H345

Tystysgrif gan y Cyflogwr/Swyddfa Dalu:

Enghraifft o gyfeirnod TWE y cyflogwr

### Blwch 5 Enw eich cyflogwr

Rhowch enw eich cyflogwr ym mlwch 5.

5 Enw eich cyflogwr

ABC LTD

Enghraifft o dudalen 'Cyflogaeth', blwch 5

### Blwch 6 Os oeddech yn gyfarwyddwr cwmni

Rhowch 'X' yn y blwch 'Iawn' os cawsoch incwm neu fuddiannau fel cyfarwyddwr cwmni. Rhowch 'X' yn y blwch 'Na' os nad oeddech yn gyfarwyddwr cwmni ac ewch i flwch 8.

### Blwch 6.1 Os gwnaethoch roi'r gorau i fod yn gyfarwyddwr cyn 6 Ebrill 2026

Os gwnaethoch roi'r gorau i fod yn gyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn, rhowch y dyddiad y gwnaethoch roi'r gorau iddi ym mlwch 6.1. Os gwnaethoch barhau i weithio gyda'r un cwmni, dylai pob incwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn gael ei gyfrif o dan yr un cyfeirnod treth TWE.

### Blwch 7 A oedd y cwmni yn gwmni caeedig

Rhowch 'X' yn y blwch 'Iawn' os oedd y cwmni yn gaeedig yn ystod y flwyddyn. Bydd cwmni yn gaeedig os yw'n breswyl yn y DU ac yn cael ei reoli gan ei gyfarwyddwyr , neu gan 5 neu lai o gyfranogwyr, fel cyfranddalwyr. Os nad oedd y cwmni hwn yn gaeedig, rhowch 'X' yn y blwch 'Na' ac ewch i flwch 8.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am gwmnïau caeedig, darllenwch lawlyfr mewnol CThEF 'CTM60060 - Close companies: general: broad definition'. Ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/company-taxation-manual/ctm60060

### Blwch 7.1 Enw'r cwmni caeedig hwn

Rhowch enw llawn y cwmni ym mlwch 7.1.

### Blwch 7.2 Rhif cofrestru'r cwmni caeedig hwn

Rhowch rif cofrestru'r cwmni ym mlwch 7.2.

Dylech fod wedi cael hwn gan Dŷ'r Cwmnïau wrth ffurfio'r cwmni.

### Blwch 7.3  Difidendau a gawsoch gan y cwmni caeedig hwn

Rhowch swm yr incwm difidend a gawsoch gan y cwmni caeedig hwn ym mlwch 7.3.

Dylai hyn fod yr un math o incwm a nodwyd gennych ym mlwch 4 ar dudalen TR 3, SA100.

### Blwch 7.4  Canran y gyfranddaliadaeth yn y cwmni caeedig hwn

Rhowch gyfanswm canran y cyfalaf cyfranddaliadau a berchnogir ym mlwch 7.4. Dylai hyn gael ei gyfrifo gan gyfeirio at werth enwol y cyfranddaliadau. Dyma fydd y ganran uchaf o gyfranddaliadaeth a gawsoch yn ystod y flwyddyn.

### Blwch 8  Os yw'r incwm hwn o gyflogaeth yn dod o'r tu fewn i drefniadau gweithio oddi ar y gyflogres

Os ydych wedi darparu'ch gwasanaethau drwy'ch cwmni cyfyngedig eich hun, neu drwy fath arall o gyfryngwr, megis:

- partneriaeth
- cwmni gwasanaeth personol
- unigolyn

i gleient, a elwir hefyd, o bosibl, yn:

- huriwr ('engager' neu 'hirer')

a bod Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol wedi'u didynnu o'ch ffi a'u talu i CThEF, rhowch 'X' ym mlwch 8.

> I gael rhagor o wybodaeth am weithio oddi ar y gyflogres, ewch i www.gov.uk/guidance/understanding-off-payroll-working-ir35

## Buddiannau o'ch cyflogaeth

Os yw eich cyflogwr wedi talu'ch buddiannau a threuliau 'drwy'r gyflogres' (golyga hyn bod treth wedi'i didynnu o'ch cyflog a'i chynnwys yn eich P60) peidiwch â'u cynnwys ym mlychau 9 i 20.

Fel arall, bydd rhaid i'ch cyflogwr roi manylion o'ch buddiannau a threuliau i chi ar ffurflen P11D, 'Treuliau a buddiannau'. Rhowch y manylion o'ch P11D ym mlychau 9 i 20. Mae rhif pob blwch ar ffurflen P11D yn cyfateb â'r blwch o'r un rhif yn yr adran hon.

Mae'r holl fuddianau a threuliau a roddir yn ychwanegu at eich incwm, a gallant gynnwys y canlynol:


- ceir cwmni a thanwydd
- benthyciadau di-log a llog isel
- yswiriant meddygol a deintyddol preifat

> I gael rhagor o wybodaeth am fuddiannau o'ch cyflogaeth, ewch i www.gov.uk/tax-company-benefits


Os nad yw copi o'ch P11D yn dod i law erbyn 6 Gorffennaf 2026, cysylltwch â'ch cyflogwr.

### Blwch 9  Ceir a faniau cwmni

Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn adrannau F ac G eich P11D. Adiwch y symiau ym mlwch 9 eich P11D at ei gilydd a rhowch y cyfanswm yn y blwch hwn.


arian parod neu swm perthnasol
r mewn arian parod
£ 20,665
£
werth mewn arian parod neu swm perthnasol ar gyfer pob car a oedd ar gael yn 2018 i 2019
9 £ 20,665 1A
arian parod neu swm a
thed tanwydd ar gyfer pob car
£
£

Enghraifft o flwch 9 ar dudalen 1 P11D


thanwydd faniau
n gwerth mewn arian parod neu swm a aberthwyd parthed pob fan a oedd ar gael yn 2018 i 2019
9 £ 15,000
gwerth mewn arian parod neu swm a aberthwyd parthed y tanwydd ar gyfer pob fan a oedd ar gael yn 2018 i 2019
10 £

Enghraifft o flwch 9 ar dudalen 2 P11D

Os ydych yn defnyddio eich car neu fan eich hunan ar gyfer gwaith (heb gynnwys mynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith), peidiwch â chynnwys y ffigurau yma. Rhowch y symiau ym mlwch 12 neu 17.

### Blwch 10  Tanwydd ar gyfer ceir a faniau cwmni

Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn adrannau F ac G eich P11D. Adiwch y symiau ym mlwch 10 eich P11D at ei gilydd a rhowch y cyfanswm yn y blwch hwn.

> Er mwyn cyfrifo eich buddiant car cwmni a thanwydd, ewch i www.gov.uk/cyfrifo-treth-ar-geir-cwmni

### Blwch 11  Yswiriant meddygol a deintyddol preifat

Rhowch y ffigur sy'n adran I eich P11D ym mlwch 11.

### Blwch 12  Talebau, cardiau credyd a lwfans milltiroedd gormodol

Os rhoddodd eich cyflogwr dalebau neu gardiau credyd i chi, neu os dalodd lwfans milltiroedd i chi am ddefnyddio eich car eich hunan ar gyfer gwaith dros y gyfradd gymeradwy, rhowch y ffigurau o adrannau C ac E eich P11D ym mlwch 12.

Mae'r talebau yr ydych yn talu treth arnynt yn cynnwys:

- talebau anrhegion
- talebau neu stampiau ar gyfer arian
- tocynnau tymor
- talebau gofal plant dros y swm wythnosol priodol – rydych yn talu treth ar yr hyn sydd dros ben

Mae cardiau credyd yn cynnwys:

- cardiau a roddwyd gan gwmnïau cardiau credyd
- cardiau tâl
- cardiau cyfrif manwerthwyr
- tocynnau a ddefnyddir er mwyn cael nwyddau o beiriannau

Os talodd eich cyflogwr lai na'r gyfradd gymeradwy i chi, nid yw'n ei gynnwys ar eich P11D. Dylech gadw cofnodion o'ch treuliau a hawlio'r diffyg yn eich taliadau ym mlwch 17.

**Cyfraddau milltiroedd cymeradwy ar gyfer y flwyddyn dreth 2025 i 2026**

| | |
|---|---|
| **Ceir a faniau** | Y 10,000 o filltiroedd busnes cyntaf - 45c y filltir.<br>Milltiroedd busnes dros 10,000 - 25c y filltir. |
| **Beiciau modur** | 24c y filltir. |
| **Beiciau** | 20c y filltir. |

I gael rhagor o wybodaeth am dalebau a chardiau credyd ewch i:
- www.gov.uk/expenses-and-benefits-vouchers
- www.gov.uk/expenses-benefits-credit-debit-charge-cards

### Blwch 13 Nwyddau ac asedion eraill a ddarparwyd gan eich cyflogwr

Fel arfer dyma werth marchnad unrhyw nwyddau a roddodd eich cyflogwr i chi. Adiwch y symiau yn adrannau A ac L eich P11D at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 13.

I gael rhagor o wybodaeth am daliadau 'ar ffurf nad yw'n arian' - asedion a drosglwyddwyd, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS213'

### Blwch 14 Llety a ddarparwyd gan eich cyflogwr

Rhowch y ffigur o adran D eich P11D ym mlwch 14.

I gael rhagor o wybodaeth am lety a ddarparwyd gan eich cyflogwr, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS202'

### Blwch 15 Buddiannau eraill (gan gynnwys benthyciadau di-log a llog isel)

Adiwch yr holl symiau ym mlwch 15 eich P11D at ei gilydd. Rhowch y cyfanswm ym mlwch 15.

I gael rhagor o wybodaeth am asedion a ddarparwyd ar gyfer defnydd preifat, ewch i www.gov.uk/expenses-benefits-assets-available-to-employee

### Blwch 16 Taliadau a gafwyd am dreuliau a thaliadau mantoli

Adiwch yr holl symiau yn adran N eich P11D at ei gilydd. Rhowch y cyfanswm ym mlwch 16.

I gael rhagor o wybodaeth am daliadau mantoli, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS252'

## Treuliau cyflogaeth

Gall yr wybodaeth a roddwch ar eich Ffurflen Dreth effeithio ar eich cod treth TWE os ydym yn ei chael cyn 1 Ionawr 2027.

Os ydych yn disgwyl i'r symiau ym mlychau 17 i 20 newid yn ystod blwyddyn dreth 2026 i 2027, mae'n rhaid i chi roi gwybod i CThEF er mwyn i ni allu diweddaru eich cod treth TWE presennol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/codau-treth/diweddaru-eich-cod-treth

### Blwch 17 Treuliau am deithiau busnes a chynhaliaeth

Gallwch ond hawlio am y costau y bu'n rhaid i chi eu talu er mwyn gwneud eich swydd, megis:
- costau teithio, gan gynnwys prydau bwyd a llety mewn perthynas â'r daith - peidiwch â chynnwys eich costau cymudo arferol
- costau defnyddio eich car, eich beic neu'ch beic modur eich hunan
- treuliau busnes, megis galwadau ffôn

Os talodd eich cyflogwr llai na'r gyfradd gymeradwy i chi ar gyfer defnyddio eich cerbyd eich hunan ar gyfer gwaith, cadwch gofnodion o'ch treuliau a hawliwch y diffyg yn eich taliadau ym mlwch 17.

Adiwch eich holl gostau teithio a threuliau busnes a ganiateir at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 17.

### Blwch 18 Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau

Symiau o gyfraddau unffurf yw didyniadau sefydlog sy'n cwmpasu'r costau o gynnal neu ddisodli offer neu ddillad gwaith arbennig.

Gall y ffigur hwn fod ar eich P2, 'Hysbysiad Cod TWE'. Os ydyw, rhowch y cyfanswm hwnnw ym mlwch 18.

Mae treuliau cyfradd unffurf yn eich galluogi i hawlio rhyddhad treth ar gyfer swm safonol ('cyfradd unffurf') ym mhob blwyddyn dreth. Mae'r swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar eich swydd a'r diwydiant rydych yn gweithio ynddo.

I gael rhagor o wybodaeth am y swm y gallwch ei hawlio, ewch i www.gov.uk/guidance/job-expenses-for-uniforms-work-clothing-and-tools

Os byddai'n well gennych ddidynnu'r swm gwirioneddol a warioch ar offer neu ddillad gwaith arbennig, gadewch y blwch hwn yn wag a rhowch y cyfanswm ym mlwch 20.

I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau, ewch i www.gov.uk/rhyddhad-treth-ar-gyfer-cyflogeion

**Blwch 19 Ffioedd a thanysgrifiadau proffesiynol**

Os oes angen i chi dalu ffioedd neu danysgrifiadau blynyddol penodol i gyrff proffesiynol er mwyn cyflawni eich swydd, rhowch y swm ym mlwch 19.

> I gael rhestr o gyrff proffesiynol cymeradwy a ffioedd a thanysgrifiadau a ganiateir, ewch i www.gov.uk/rhyddhad-treth-ar-gyfer-cyflogeion/ffioedd-a-thanysgrifiadau-proffesiynol

**Blwch 20 Treuliau a lwfansau cyfalaf eraill**

Gallwch hawlio'r costau o brynu eitemau bach o gyfarpar sydd eu hangen arnoch i wneud eich swydd (nad yw eich cyflogwr wedi'u rhoi), megis driliau trydanol a dillad amddiffynnol.

Gallwch hefyd hawlio costau ychwanegol yr aelwyd os oes yn rhaid i chi weithio gartref yn rheolaidd. Os gwnaethoch hawlio rhyddhad treth yn y gorffennol pan oeddech yn gweithio gartref yn sgil coronafeirws (COVID-19) mae'n bosibl na fyddwch yn gymwys mwyach.

> I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau wrth weithio gartref, ewch i www.gov.uk/rhyddhad-treth-ar-gyfer-cyflogeion/gweithio-gartref

Mae'n bosibl y gallwch hawlio lwfansau cyfalaf am eitemau mwy o faint, megis offer a pheirianwaith a chyfrifiaduron (ond nid ceir na faniau). Rhowch y cyfanswm ym mlwch 20.

> I gael cymorth wrth gyfrifo eich lwfansau, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

> Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.